**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: PO/HIDCC/0130/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Ebrill 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am eu sylw i'm llythyr dyddiedig 7 Mawrth 2025 a'ch cais wedi hynny am esboniad ynglŷn â'i amseriad ac am yr oedi a fu cyn gwneud Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024 (a ailenwyd i adlewyrchu'r flwyddyn y cawsant eu gwneud (2025)) ("Rheoliadau 2024").

Yn gyntaf, ymddiheuraf am beidio â rhoi digon o gyfle i'r Pwyllgor fynegi barn cyn imi roi fy nghydsyniad ffurfiol. Y rheswm am hynny oedd am i ni drefnu bod yr Offeryn Statudol (OS) yn cael ei osod ar 12 Mawrth ac o ganlyniad, roedd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y dyddiad hwnnw. Cawsom hefyd gais brys gan swyddogion Defra am benderfyniad erbyn 6 Mawrth 2025. Er i'r Farwnes Hayman o Ullock ysgrifennu ataf ar 8 Ionawr 2025, ni ddaeth yr OS terfynol i law tan fis Chwefror 2025. Roedd angen amser, a theg hynny, ar swyddogion i asesu a gwerthuso'r OS a'i oblygiadau'n llawn. Mae'n rhoi esemptiadau sy'n seiliedig ar amser ar gyfer Dechlorane Plus ac UV-328 o dan amgylchiadau penodol.

O ran yr oedi cyn gwneud Rheoliadau 2024, dywedodd Defra wrthym, yn dilyn gosod Rheoliadau 2024 drafft, fod gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr y diwydiant wedi rhoi gwybodaeth fod angen rhagor o esemptiadau. Gall newidiadau annisgwyl ddigwydd pan fydd cyfyngiadau yn effeithio ar sectorau allweddol mewn ffyrdd na chawsant eu rhagweld. Mae diwydiannau'n gymhleth ac yn gallu wynebu heriau newydd neu gael gwybodaeth newydd annisgwyl. Fe all felly bod angen newid y rheoliadau rhag tarfu ar weithrediadau neu ar sefydlogrwydd economaidd. Mae hyblygrwydd o'r fath yn hanfodol i allu cadw cydbwysedd rhwng amcanion y rheoliadau a'r realiti sy'n wynebu sectorau gwahanol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd angen trefnu'r ddau offeryn fel nad oedd bwlch rhwng y darpariaethau sy'n dod i rym o dan Reoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") a'r esemptiadau ychwanegol a ddarperir yn Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2025 ("Rheoliadau 2025").

Gobeithio bod hyn o esboniad yn egluro'r rhesymau dros yr amseriad a'r oedi wrth wneud y rheoliadau. Cysylltwch â mi os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs